# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Rhagfyr 2017

Amser: 14.30 - 15.23

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4345

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AC (Cadeirydd)<br>Dai Lloyd AC<br>David Melding AC |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Tanwen Summers (Ail Glerc)<br>Alys Thomas (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 2.1 SL(5)155 - Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2018

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad.

## 3 Is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i ddim gweithdrefn

### 3.1 SL(5)157 - Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ffioedd Swyddogion Canlyniadau) (Diwygio) 2017

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2017: Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol at y Cadeirydd - 21 Medi 2017

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 4.2 Llythyr gan y Llywydd at Gadeirydd Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin - 28 Tachwedd 2017

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 4.3 Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael): Llythyr gan Robin Walker AS, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar gyfer Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol - 4 Rhagfyr 2017

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 4.4 Rheoliadau Deddf Cymru 2017 (Cychwyn Rhif 4) 2017

Nododd y Pwyllgor y rheoliadau.

### 4.5 Ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynigion i ddatblygu Deddf ar ddehongli deddfwriaeth Cymru

Nododd y Pwyllgor yr ymatebion a bydd yn cyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor Busnes bod y ddeddfwriaeth hon yn dod gerbron y Pwyllgor.

## 5 Ymchwiliad i'r pwerau ym Mil yr UE (Ymadael) i wneud is-ddeddfwriaeth: Ymatebion i'r ymgynghoriad

Nododd y Pwyllgor yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Ymchwiliad i'r pwerau ym Mil yr UE (Ymadael) i wneud is-ddeddfwriaeth: Dadansoddiad o farn holl bwyllgorau seneddol y DU ar graffu ar bwerau dirprwyedig ym Mil yr UE (Ymadael)

Ystyriodd y Pwyllgor farn holl bwyllgorau seneddol y DU a chytunodd ar y camau nesaf.

## 8 Bil yr UE (Ymadael): Cynnydd Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael):

Ystyriodd y Pwyllgor y briff ymchwil.

## 9 Bil yr UE (Ymadael): Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Trafod yr adroddiad drafft

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd i ddosbarthu adroddiad diwygiedig i'r Pwyllgor trwy e-bost.

## 10 Gohebiaeth gan y Llywydd: Diwygio'r Cynulliad. Ystyried llythyr drafft

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Llywydd.

## 11 Blaenraglen Waith

Trafododd y Pwyllgor y flaenraglen waith.